Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost Y Pîl**
**Heol Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6PG**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi ein bod yn newid y Swyddfa Bost uchod i fod yn un o'n canghennau Lleol eu natur.

Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn dau fan gwasanaeth modern â chynllun agored. Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem, pe bai angen, yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau, er mwyn gwneud lle i diliau talu Swyddfa'r Post. Bydd y gangen yn cynnig dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post gydag oriau agor estynedig, sef Llun – Gwen 08:00 – 19:30, Sad 08:00 – 17:30 a Sul (Ar gau), fel bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio'u Swyddfa Bost pan fo hynny'n gyfleus. Mae canran uchel o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol eu natur, ac mae llawer o gwsmeriaid yn ymweld â changhennau lleol y tu allan i'r oriau agor traddodiadol.

Bydd modd o hyd i gwsmeriaid gael y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post sy'n gyfarwydd iddyn nhw; fodd bynnag, i gael nifer fach, gall y bydd rhaid mynd ar-lein neu ymweld â Swyddfa Bost arall. Ni fydd modd gwneud trafodiadau â llaw gan ddefnyddio papur. Mae manylion am y cynhyrchion sydd ar gael isod.

Bydd eich Swyddfa Bost ar ei newydd wedd yn agor yn y lleoliad hwn ddydd Llun 23 Awst 2021 am 13:00. Bydd angen cau'r gangen ar gyfer gwaith adnewyddu ddydd Gwener 30 Gorffennaf 2021 am 13:00. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newid.

Bydd y canghennau a ganlyn yn falch o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn:

- Swyddfa Bost Mynyddcynffig, CF33 4LN
- Swyddfa Bost Gogledd Corneli, 61 Heol Fach, Gogledd Corneli, CF33 4LN

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bydd posteri yn cael ei gosod yn y gangen fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newid. Gobeithiwn y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn dal i gefnogi'ch gwasanaeth Swyddfa'r Post ffasiwn-newydd.

Yr eiddoch yn gywir

*Katimay John*

**Katimay John**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni**

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk.
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

| Gwasanaethau sydd ar gael yn Swyddfa Bost Y Pîl | | |
|---|---|---|
| **I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03457 22 33 44. Gallwch gael manylion am werth uchaf trafodion dros y ffôn.** | | |
| | **Y gangen bresennol** | **Y gangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ | ✓ |
| Signed For | ✓ | ✓ |
| Special Delivery | ✓ | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | | |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ | ✓ |
| Local Collect | ✓ | ✓ |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ | ✓ |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ | ✓ |
| Archebion Post | ✓ | ✓ |
| Moneygram | ✓ | ✓ |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ | ✓ |
| **Gyrru** | | |
| Treth y car | ✓ | ✓ |
| Trwyddedau | | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ | ✓ |
| Teithio | | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | | **Ewros/Doleri** |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✗ | ✓ |
| Yswiriant Teithio ar gais | ✓ | ✗ |
| Gwirio ac Anfon Pasbort | ✓ | ✗ |
| | | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ | ✓ |
| Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost Mynyddcynffig<br>64 Commercial Street, Mynyddcynffig, CF33 6DL<br><br>Neu yn Swyddfa Bost Gogledd Corneli, 61 Heol Fach, Gogledd Corneli, CF33 4LN | | |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor y Swyddfa Bost
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

**postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.